

Llais y Llan Awst 2014

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Medi 2014
Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol
www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Dawnsio Zumba yn y Neuadd Goffa bob nos Fawrth 6.30 – 7.30 Medi

MOBI tu allan i'r Neuadd Goffa pob nos Fercher o 17.30 tan 19.30

Noson Stêc y Rheilfford pob nos Fercher 253643

Awst 9 Dydd Sadwrn 2.00 Cerdded i Skanda Vale drwy Cwmcreigiau Fach o Bodran Felin

Awst 10 Dydd Sul Taith Maes i Fargam Eglwys, Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Awst 13 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Awst 19 Dydd Mawrth Clwb 60+ Taith i Abaty Felin Tintern

Awst 21 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilfford

Awst 23 Dydd Sadwrn 11.00 Sioe Amaethyddol Cynwyl Elfed

Awst 26 Dydd Mawrth 1.00 Clinig 'Traed Hapus' Neuadd Goffa

Awst 28 Nos Iau 8.00 Clwb Bowlio Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Neuadd Goffa

Awst 31 Dydd Sul 4.00 Helfa Treure o Neuadd Goffa

Awst 31 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook Inn Bronwydd

Medi 1 Nos Lun 7.30 Clwb Bowlio Neuadd Goffa

Medi 7 Dydd Sul 2.00 Cerdded Mynydd Llanllwni o Tafarn Talardd

Medi 10 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Medi 14 Dydd Sul Taith Maes Eglwys Manobier, Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Medi 17 Nos Fercher 7.30 Sioe Ffasiwn Nanette's Neuadd Goffa

Medi 18 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilfford

Medi 22 Dydd Llyn 2.00 Clwb 60+ Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Neuadd Bronwydd

Medi 27 Dydd Sadwrn 10.00 Bore Coffi Macmillan Neuadd Goffa

Medi 28 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru, Neuadd Bronwydd

Medi 28 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook Inn Bronwydd

Hydref 4 Nos Sadwrn Eglwys Llanpumsaint Swper Cynhaef (dyddiad i'w gadarnhau)

Hydref 7 Dydd Mawrth 1.00 Clinig 'Traed Hapus' Neuadd Goffa

Hydref 8 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Hydref 11 Dydd Sadwrn 12.45 Cerdded Amroth i Bentwyn

Hydref 18 Nos Sadwrn 7.30 Noson Deyrned Neuadd Goffa

Hydref 23 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilfford

Hydref 26 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru, Neuadd Bronwydd

Hydref 26 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook Inn Bronwydd

Tachwedd 28 Nos Wener 7.30 Bingo Neuadd Goffa

*Nenadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

Malcolm Howells - Or Gwaith Glo i ganol gwartheg!

Prin oedd trigolion plwyf Llanpumsaint â chysylltiad gyda'r gweithfeydd glo, ond colier go iawn oedd y Diweddar Malcolm Howells. Symudodd Malcolm Howells a aned ym Mhonthenry, i'r Pandy yn fuan ar ôl priodi Elfira ym Mis Gorffennaf 1958 a bu yn tyddyna gyda teulu'r Pandy yn ogystal a gweithio yng nglofa Cynheidre tan 1987. Yn ddyn amryddawn, roedd ganddo hoffter mawr at chwaraeon; y bêl gron yn bennaf, a chwaraeodd pel droed yn safle'r cefnwr i dimoedd Meinciau, Porthyrhyd a Llandysul. Roedd ganddo brofiad o adeiladwaith oherwydd iddo weithio am gyfnod gyda James Rees Builders, gwneud gwaith fferm ac wrth gwrs gweithio o dan ddaear. Roedd Malcolm Pandy fel ei adnabwyd yn lleol yn ymroddwr; bu yn aelod selog o'r NUM drwy gydol ei yrfa o 37 mlynedd yn y diwydiant glo, a chefnogodd amrywiaeth di ri o bwylgorau a mudiadau ym mhentref Llanpumsaint a thu hwnt. Bu yn Gynghorydd y Gymuned ers 1972 ac yn aelod o bwylgorau'r Neuadd, Lles ac Adloniant, yn Gadeirydd ar Glwb y Bowls Mat Byr, ac yn Llywodraethwr o'n ysgol gynradd ac Ysgol Uwchradd Cambria. Daeth nifer teilwng i Amlosgfa Arberth, i dalu'r gymwynas olaf, ac yn garedig iawn, wnaeth Teulu Pandy drefnu lluniaeth ysgafn i'r galarwyr yn y Roadhouse Restaurant gerllaw Hendy Gwyn ar ôl y cynhebrwng. Cryf o gorff, cadarn ei gefnogaeth.

Gwasanaeth y Swyddfa Bost -- Gair i'ch atgoffa fod y fan yn dod bob prynhawn Dydd Mawrth - 2 y.p - 4 y.p; Prynhan Gwener -- 1 y.p – 3 y.p.
Bydd yn parcio yn yr arhosfa'n ger Brynywawr gerllaw Tafarn y Railwe.

Gwasanaeth “Traed Hapus” gyda ‘Wellbeing Regeneration's Footcare Service’
Mae'r gwasanaeth torri ewinedd traed yn dod i Neuadd Goffa Llanpumsaint bob chwe wythnos. Mae'r sesiwn nesaf yna ar y Dydd Mawrth Awst 26. a Dydd Mawrth Hydref 7 am 13.00y.p. Ffoniwch i archebu eich lle. Pris y sesiwn yw £8.50 ond mae angen taliad cychwynnol o £26.50 am bâr o glipwyr a rhathell eich hunan. Am wybodaeth ac archebu: 01554 744896 - oriau swyddfa 9.30 hyd 4.30 y.p.
www.wellbeingregeneration.org.uk

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo

Bydd Cyfarfod Blynnyddol y Clwb yn cael ei gynnal ar ddydd Iau 28ain o Awst 2014 am 8 y.h. yn Neuadd Goffa Llanpumsaint.

Gofynnir i holl aelodau presennol y clwb i fynychu'r cyfarfod. Bydd nosweithiau ymarfer yn dechrau ar y 1af o Fedi am 7.30 y.h. - 9.30 y.h. a bob nos Lun ac Iau wedi hynny ar yr un amser yn y Neuadd.

Mae croeso i unrhyw un o oed 10-100 sydd eisiau ymuno gyda'r Clwb i fynychu'r sesiynau ymarfer, os ydych wedi chwarae bowls mat byr o'r blaen neu beidio. Bydd ein hyfforddwyr proffesiynol yn fwy nag hapus i'ch helpu.

Mae'r Clwb yn chwarae yn Adran Gyntaf Cynghrair Bowls Mat Byr Sir Gaerfyrddin. Am unrhyw wybodaeth bellach cysylltwch ag Derick Lock yr Ysgrifennydd ar 253 524.

SIOE CFFI CYNWYL ELFED

Dydd Sadwrn Gwyl y Banc 23 Awst 2014, I gychwyn am 11.00, CAE'r "Shed", Panthwdog, CYNWYL ELFED, (gan ganiatad Mr E Williams, Panthwdog)

CLASSES for Cattle, Sheep, Dogs, Pets, Farm Produce, Garden Produce, Flowers, Floral Art, Cookery, Dairy Produce, Preserves, Handicrafts, Rural Crafts, Wines & Meads, Children's Section

ALSO NEW FOR THIS YEAR – POULTRY SECTION AND VINTAGE DISPLAY

Rhaglenni llawn ar gael yn Cynwyl Elfed Premier Siop, Llanpumsaint Siop, Derwydd Garage

Lluniaeth ar gael

Adloniant Nososn - “CRAZY” FOOTBALL, SLAVE AUCTION, MR & MRS, PIG ROAST AND BBQ

Am fwy o fanylion cysylltwch a: Mrs Meinir Davies, Clynnauenllwyd, Hermon, Cynwyl Elfed, Carmarthen (Tel: 01267 281549)

Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru – Digwyddiadau i ddod

Dydd Sul, Awst 10fed - Trip i Eglwys Margam, Mediaeval Monks Bath House, Mediaeval Chapel and Stones.

Dydd Sul, Medi 14^{eg} - Trip i Eglwys Manorbier

Dydd Sul, Medi 28^{ain} - "Dowsing and the Power of your Intention", Mark Lange

Dydd Sul, Hydref 26^{ain} - Technegau Darogan Defnyddiol, Sean Kirwan

Mae'r ymarfer hyn yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol ac yn fuddiol iawn i bawb, a chredir iddo darddu o Wlad yr Aifft. Mae sawl cwmni yn defnyddio yr ymarfer hyn yn awr i chwilio am ddŵr, olew a cheblau trydan a.y.b. Hefyd fe'i ddefnyddir gan rhai pobl i ddarganfod diogelwch eu bwyd, er mae cred bersonol yw hyn ac nid yw hyd yn hyn wedi ei brofi yn wyddonol. Pam na ddewch chi i'r cyfarfod i weld dros eich hunan beth mae'r ymarfer hyn yn medru gwneud. Tâl mynedfiad yw £4 y pen a fydd yn cynnwys te a bisgedi yn ystod y toriad. Does dim eisiau unrhyw offer, dim ond presenoli eich hunan. Am fwy o fanylion cysyllwch a Sandy ar 01267 253547

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Dwy daith wych gyda thywydd bendigedig - y cyntaf o'r ddwy ar y 21^{ain} o Fehefin o amgylch y pentref gydag Arwyn Thomas yn rhoi hanes yr adeiladau a'r bobl. Yna i fyny at yr Afon Cerwyn i'r 5 pwl - gyda chaniatâd caredig y perchennog.

Ar y 5^{ed} o Orffennaf wnaethom fwynhau taith hamddenol o amgylch Talacharn, gan gynnwys te yn y Boathouse - byddwn yn sicr yn eich cynggori i fynd yno!

Bydd ein taith ym mis Awst ar ddydd Sadwrn y 9^{fed} am 2 o'r gloch y.p. gan gerdded i Gwm Creigiau Bach o Bodran Felin, ac yna lawr y dyffryn o Skanda Vale. Tua 5 milltir bydd y daith yma, gan gymryd tua 3 awr - map i'w gael yn y siop.

Ym mis Medi byddwn yn ymuno gyda nifer o grwpiau cerdded arall ar Fynydd Llanllwni - cyfarfod yn Nhafarn Talardd, Llanllwni am 10 y.b. ar ddydd Sul 9^{fed} o Fedi. Ni fydd camfeydd ac yn addas ar gyfer cŵn ar dennyn. Bydd y daith tua 2-3 awr, gan gerdded ar y mynydd hudol a dychwelyd i Dalardd am ginio.

Bydd y 11^{eg} o Hydref yn ein gweld yn cerdded rhan o Lwybr Arfordir Cymru o Amroth i Bentwyn - parcio ym Mhentywyn i ddal bws i Amroth am 1 o'r gloch. Mae llanw isel am 3 o'r gloch, felly gallwn gerdded ychydig o'r daith wrth y llwybr clogwyn i Gastell Top a Ban Marros, gyda'r gweddill ar y traeth yn ôl i Bentwyn. Welwn ni chi yn yr orsaf bws!

Rhowch wybod i mi os ydych yn dod ar y teithiau yma Carolyn Smethurst - 253308

Noson Stêc y Rheilffordd

Bydd Mike, Jayne a Nick yn cynnal Noson Stêc i 2 bob dydd Mercher - 2 x10oz Celtic Pride stêc ffolen gyda sglodion cartref a garnais salad a photel o win tŷ; am £25 y cwpwl. Ffoniwch y Rheilffordd ar 01267 253643 i archebu.

Clwb 100 Llanpumsaint

Yng nghyfarfod Cymdeithas Lles ac Adloniant Llanpumsaint ar yr 8fed o Orffennaf - tynnwyd enillwyr Gorffennaf ac Awst. Enillwyr fel y ganlyn:

Gorffennaf	1 ^{af}	£20	Rhif. 48	Hedydd Rees
	2 ^{il}	£10	Rhif. 95	Rita Gilham
	3 ^{ydd}	£5	Rhif. 9	Elvira Howells
	3 ^{ydd}	£5	Rhif. 91	John Atkinson
Awst	1 ^{af}	£20	Rhif. 37	Meinir Jones
	2 ^{il}	£10	Rhif. 70	Michelle Girdler
	3 ^{ydd}	£5	Rhif. 12	William Marshall
	3 ^{ydd}	£5	Rhif. 11	T E George

Os oes unrhyw â diddordeb ymuno gyda'r Clwb, cysylltwch gyda Derick Lock ar 01267 253524.

Clwb Gwili 60+Bronwydd

Adeg yma mae'r clwb yn brysur iawn gyda nifer o dripiau wedi'u trefnu dros yr haf - y diweddaraf i Dŷ Llanelli. Roedd yn brynhawn bendigedig gyda phryd yn yr Hollybrook i orffen. Lle diddorol iawn i ymweld â yw Tŷ Llanelli.

Mae ein trip nesaf wedi'i drefnu ar gyfer y 19eg o Awst i ymweld â Abbey Mill Tintern ger Casgwent. Bydd aelodau yn cael bwffe i ginio yn y Mill ac yna taith o amgylch yr ardal gyfagos.

Y siaradwr gwadd ar gyfer ein cyfarfod mis Gorffennaf oedd Mr Hywel Evans a oedd yn trafod Gwaith Adfer Dinefwr; prynhawn pleserus iawn. Ni fydd y clwb yn cyfarfod ym mis Awst.

Gobeithir cynnal y Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol ar ddydd Llun 22ain o Fedi am 2 y.p. Lluniaeth i ddilyn gyda chroeso i aelodau hen a newydd.

Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'n ysgrifenyddes Val Giles ar 01267 281194.

Cyngor Bro Llanpumsaint

Phillip Jones, Clerc, 01267 253512, neu philkto@yahoo.co.uk
www.llanpumsaint.org.uk/llanpumsaintcommunitycouncil

Ceisiadau adeiladu

Dim ond un cais wedi'i gyflwyno yn y ddeufis diwethaf:

Cais rhif W/30345, Pantyffordd, Llanpumsaint. Estyniad ac adeiladwaith o dŷ-allan.

Mae Coed Cadw â'i fryd ar greu Coedwig Ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yn nhirwedd donnog Sir Gâr

Mae Coed Cadw (Woodland Trust) wedi cyhoeddi cynllun i greu Coedwig Ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Rhyfel Cyntaf yng Nghymru. Mae'r tir a nodwyd yn safle 120 erw ger pentref Carwe yn nhirwedd donnog Cwm Gwendraeth i'r Gogledd Orllewin o Lanelli, ger Cae Rasio Ffos Las.

Bwriad y mudiad yw creu coedwig newydd ymhob un o bedair gwlad y DU, i goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn anaml iawn y bydd tir yn dod ar y farchnad ar y raddfa hon ac mae Coed Cadw angen codi o leiaf hanner miliwn o bunnau erbyn diwedd mis Awst i fod yn hyderus y bydd y prosiect yn hyfyw yn ariannol ac y gall y mudiad ymrwymo i brynu, plannu a gofalu am y safle, gan sicrhau y bydd Cymru'n cael ei chynrychioli yn y prosiect hanesyddol hwn. Cost llawn y prosiect fydd tua £1.2m.

Mae Coed Cadw'n anelu at blannu 90,000 o goed brodorol ar y safle, gan greu clytwaith o goetir a dolydd o flodau gwyllt, gan gynnwys y pabi eiconig Fflandrys. Fe fydd y goedwig yn cynnwys ardal goffa arbennig i gofio pawb a wasanaethodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. A bydd mynediad a dehongli yn cael ei ddarparu i bawb. Yn wir, mae'r elusen yn awyddus i gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o gynllunio a chreu Coedwig Ganmlwyddiant newydd, gan gynnig cyfleo i bobl leol a phlant o ysgolion lleol blannu rhai o'r coed eu hunain.

Dywed Jerry Langford, Cyfarwyddwr Coed Cadw yng Nghymru: "Ein nod yw plannu 90,000 o goed brodorol ar y safle. Byddan nhw'n sefyll i goffáu cenhedlaeth o 100 mlynedd yn ôl, gan ddarparu teyrnedd barhaol i bawb a fu'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Rydym yn gobeithio gweld miloedd o bobl yn cymryd rhan trwy blannu eu teyrnedd eu hunain neu neilltuo coed er cof am anwyliaid. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth a chefnogi'r ymgyrch ar woodlandtrust.org.uk/fwvcymru"

Yn ogystal â'r 1,000 o erwau o goetir a gaiff eu creu yn y pedair Coedwig Ganmlwyddiant, fe fydd dros 150,000 o goed am ddim ar gael i ysgolion, grwpiau cymunedol a grwpiau ieuengtid yng Nghymru. Ac mae'r elusen yn gobeithio y bydd tirfeddianwyr a chymunedau ar draws y wlad yn cymryd rhan i greu cannoedd o goedlannau newydd sy'n cynnwys miliynau o goed. I gymryd rhan, ewch at coedcadw.org.uk/plant-trees

Fe fydd cwmni Sainsbury's yn bartner i Coed Cadw ar gyfer prosiect Coedydd y Canmlwyddiant.

Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnon Henri

Mae Ymddiriedolwyr y neuadd yn gobeithio byddwch chi'n barod i gefnogi sioe ffasiwn gan 'Nanette's Fashions' o Gydweli ar y 17eg o Fedi, 7.00. Bydd y manylion ar bosteri o amgylch y pentref yn agosach at y dyddiad.

Hefyd yn rhifyn nesaf Llais y Llan bydd mwy o fanylion ynglŷn â'n noson 'Musical Extravaganza' ar yr 18fed o Hydref. Cofiwch nodi'r dyddiad yn eich dyddiadur!

Yn ddiweddar ail-addurnwyd y Neuadd Goffa â'r cyntedd ac rydym yn gobeithio bydd holl ddefnyddwyr y neuadd yn cymryd gofal yn yr adeilad.

Cymdeithas Lles ac Adloniant Llanpumsaint

Cynhelir yr Helfa Drysor Blynnyddol ar ddydd Sul y 31^{ain} o Awst, gan ddechrau tu allan y Neuadd Offa rhwng 4 - 5 y.h. Bydd cost o £5 y car. Cewch gyfle i ddewis o'r fwydlen a gynnigir gan Dafarn y Rheilffordd - lle bydd yr Helfa yn gorffen.

Bydd bwyd a archebir o flaen llaw yn barod i'w fwyta wedi cyrraedd y diwedd ond yn anffodus mae gweddill y daith yn gyfrinach!

Gwelir posteri yn hysbysebu o amgylch y pentref o ddechrau mis Awst.

Mae wedi dod i'n sylw bod y ddwy siglen newydd wedi dechrau gwichian yn uchel, rydym yn delio a'r broblem.

Fel soniwyd yn y rhifyn diwethaf, mae'r Gymdeithas Lles ac Adloniant Llanpumsaint yn trefnu Bore Coffi MacMillan ar ddydd Sadwrn y 27^{ain} o Fedi rhwyg 10 - 12 y.b. yn y Neuadd Goffa.

Bydd te, coffi a chacennau ar gael i'w prynu, gyda'r elw yn mynd tuag at yr elusen.

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i goginio a rhoi cacennau o unrhyw fath. Os ydych yn fodlon cefnogi cysylltwch gyda naill ai Pam Jones ein Cadeirydd ar 253257, neu'n Ysgrifennydd Derick Lock ar 253524.

Awgrymir gan MacMillan mai Cacen Victoria, a ysbrydolir gan Gaffi M&S byddai'r rysáit delfrydol ar gyfer yr achlysur - mae'r rysáit ar gael wrth yr Ysgrifennydd. Os bydd mwy nag un o'r rhain yn cael ei pobi, byddant yn cael ei arwerthu i godi fwy o arian ar gyfer yr elusen. Cadwch lygad am y posteri swyddogol wrth yr elusen o amgylch y pentref yn agosach at y digwyddiad.

Os oes unrhyw un eisiau dod i'r bore ond o bosib methu cyrraedd heb help llaw, cysylltwch gyda Pam Jones (253257), a fydd yn gwneud trefniadau i chi ddod i'r Neuadd a'ch tywys adref.

Gyrru yn rhy gyflym yn ein pentref

Fel un o breswylwyr y pentref sydd â phlant a chŵn sy'n cerdded a beicio o amgylch Llanpumsaint yn aml, mae'n fy mhoeni yn fawr fod gymaint o gerbydau yn gyrru'n rhy gyflym drwy'r pentref. Rwy'n dwli byw yma ond rwyf wedi sylwi'n ddiweddar ar y traffig cyflym wrth i mi gerdded i'r siop, yr ysgol, y dafarn, y neuadd, y rhandir ac i ymweld â ffrindiau. Mae gan Riw Coopers arwydd 30 mya ond mae'r llethr yn annog ceir, faniau a cherbydau fferm i gyflymu wrth iddynt yrru'r rhy gyflym drwy'r pentref. Yn agos i'r gweithfeydd carffosiaeth mae un arwydd 30 mya i atgoffa pobl o'r cyfyngiadau cyflymder ond nid oes unrhyw arwyddion arall i'w weld wedi hynny.

Hoffwn hefyd godi'r broblem o geir yn gyrru'n rhy gyflym heibio'r parc, ac rwy'n gwybod bod rhai wedi awgrymu twmpathau i arafu'r traffig. Wrth i geir yrru drwy Lanpumsaint mae'r cyfyngiad 30 mya yn ymddangos yn hollol anaddas ar yr heolydd cul ar bwys yr ysgol. Credaf byddai cyfyngu cyflymder cerbydau i 20 mya yn llawer mwy diogel ac yn fwy dymunol i bobl yr ardal.

Rwy'n poeni'n fawr gallai plentyn cael ei daro wrth iddynt gerdded/beicio i'r ysgol. Gallai hyn cael ei osgoi yn gyfangwbwl os byddai gyrwyr yn cymryd mwy o ofal ac yn lleihau ei cyflymder i 30 mya neu lai (yn enwedig wrth ystyried y tro).

Os oes gennych bryderon am gyflymder uchel y traffig yn ein hardal neu os ydych yn tystio unrhyw un yn teithio ar gyflymder sy'n fwy na'r cyflymder diogel statudol yna cysylltwch â:

PC Gareth Thomas ar – gareth.thomas711@dyfed-powys.pnn.police.uk neu 01267222020

John McEvoy ar - JMcEvoy@carmarthenshire.gov.uk neu 01267234567

Os nad yw'r Heddlu a'r Cyngor yn ymwybodol o'n pryderon bydd y broblem yn parhau ac o ganlyniad gallai rhywun gael niwed. Louise Weldon, Gwynfryn.

Heddlu

Yn ystod y gwyliau haf, gall plant deimlo nad oes llawer i'w wneud er mwyn lladd yr amser. Oherwydd bod y tywydd wedi bod yn braff (hyd yn hyn), mae yna dueddiad i wersylla ag ati. Yn ddiweddar, ymatebom i alwadau am aflonyddwch yn Llanpumsaint lle y siaradwyd â nifer o bobl ifainc ynglŷn â'u hymddygiad yn y pentref a'r cyffiniau. Cyngorwyd nifer i fynd adref, ac fe wnaethant. Fodd bynnag, parhaodd rhai i fod yn niwsans yn ystod oriau mân y bore. Rydym yn annog rhieni i wneud yn siŵr eu bod nhw'n gwybod ble mae eu plant os fyddant yn mynchyur digwyddiadau hyn sy'n cael eu trefnu'n gyflym, ac yn pwysleisio pwysigrwydd gwybod eu lleoliad pe bai rhywbeth fel hyn y digwydd eto.

Byddwn hefyd yn monitro cyflymder lleol yn y pentref gan ein bod ni dal yn cael cwynion ynglŷn â'r traffig ar y brif ffordd. Rydym hefyd wedi derbyn sawl cwyn ynghylch y defnydd o ffonau symudol wrth yrru tractorau; mae hyn yn drosedd foduro sydd â dirwy o £100 a 3 phwynt. Meddyliwch cyn i chi wneud yr alwad honno a stopiwch yn ddiogel cyn ateb.

martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk, neu 101

Dathliadau Pen-blwydd! Gan Bob Conyard

Rwy'n siŵr bod nifer ohonoch wedi gwyliau'r adroddiadau yn dangos y torfeydd enfawr a ddaeth i wylio beicwyr yn dechrau Le Tour de France yn Swydd Efrog, ac yna i Lundain dros y dyddiau cyntaf.

Nid yw beicio erioed wedi bod mor boblogaidd, gyda'r bobl ifanc, yr hen, neu bawb yn y canol - dynion neu fenywod... Vive la bicyclette!!!

Yn fy nghofnodion diweddar rwyf wedi dilyn y llwybr o Lundain i Baris er mwyn codi arian at elusen 'Action Medical Research'... nawr, gallaf rannu pennod nesaf y daith....

"Bydd dy ben-blwyddyn nesaf yn un arbennig... beth hoffet ti wneud?"

gofynnodd Tina (fy ngwraig)... wedi meddwl a myfyrio dros y 69 mlynedd diwethaf.

Meddyliwn fod Tina siŵr o fod wedi gobeithio am wyliau moethus neu fordaith; er hynny un o amseroedd gorau fy mywyd oedd y ddau achlysur wrth feicio o Lundain i Baris. Penderfynais fisoeedd yn ôl i feicio'r daith eto i ddathlu fy mhen-blwydd yn 70. I goroni'r cwbl penderfynais fy mod am feicio o Gaerfyrddin i Lundain rhwng nawr a Gorffennaf nesaf.... o adref i Baris ar feic!!

"Wel???" wrth i Tina darfu ar fy meddyliau....gan gymryd anadl fer gyflym, cyhoeddais fy uchelgais. "Byddai'n deall os nad wyt ti am wneud y daith dda fi..." ychwanegais yn gyflym... "Co ni off" atebodd ...

Mewn syndod, y seiclo ei hun oedd darn 'hawdd' y daith. Y darn anoddaf oedd codi ymwybyddiaeth a chasglu arian ar gyfer Action Medical Research. Gan fod amser yn anodd i bawb nid ydym ond am ddibynnu ar haelioni bobl yn unig, ond am roi rhywbeth yn ôl hefyd.

Rydym yn trefnu 'un noson arbennig' - noson adloniant â thema Ffrengig yn Neuadd Bentref Pontlliw mis Mai nesaf. Mae amrywiaeth o berfformwyr gwych a thalentog yn barod ar gyfer y nos ynghyd â 'de Pain, du vin et peut-être du boursin'.

Rydym yn eich gwahodd chi i gyd i noson llawn hwyl... mwy o fanylion i ddod... Os oes unrhyw un mewn sefydliad neu grwpiau am i ni ddod i siarad gyda chi, croeso i chi ofyn. Gwerthfawrogwn y cyfle i rannu'n profiadau am y ddwy daith flaenorol o Lundain i Baris a hefyd i rannu'r ymchwil arbennig a datblygiadau mewn afiechydon plant a phlentyndod y mae Action Medical Research yn cyflawni.

Yn olaf, rydym yn gwahodd y rhai sy'n frwd frydig am seiclo yn eich plith i ystyried ymuno â'n tîm ar gyfer y 330 milltir y flwyddyn nesaf! Does dim teimlad gwell na'r balchder a chyflawniad wrth i chi bedalu lawr y Champs-Elysées ac o dan y Tŵr Eiffel. Gan wybod eich bod wedi gwthio eich hun i'r eithaf, ond hefyd profi beth ydych chi yn bersonol yn gallu'i gyflawni. I gyd gan godi arian ac ymwybyddiaeth at achos teilwng. Ewch i <<http://www.actionmedicalresearch.co.uk/>> am fwy o fanylion.

Cysylltwch â fi ar (01267) 253119 os ydych am roi o'ch amser i'n helpu ni i godi arian neu os ydych am wneud cyfraniad elusennol er mwyn ein helpu ni i godi'r arian gofynnol i'r daith... Diolch. Bob Conyard

Eglwys y Plwyf - Nodyn i'ch dyddiaduron

Mae manylion unrhyw wasanaethau arall ar hybysfrudd yr eglwys.

www.llanpumsaintparish.org , 01267 253205 neu E-bost:-

vicar@llanpumsaintparish.org

Capel Ffynnonhenri

Mis Awst Dim gwasanaethau.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Mr. Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418
neu Mr. Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

Dydd Sul: 10.00am Ysgol Sul I Oedolion (Cymraeg)

2.00pm Oedfa Bregethu (Cymraeg) Sul ofa'r mis - Oedfa Saesneg

Dydd Mawrth 1.00pm Dosbarth Beiblaidd Dwyieithog yn ein chwaer Eglwys Penyel

Dydd Iau 2.00pm Cwrdd Gweddi

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

Nebo

Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo Mrs Meinir Jones 253532

Diogelwch y ffordd

Gyda'r tywydd yn dda i'r planhigion a phorfeydd yr haf yma, mae nifer o gloddiau a llwyni cyfagos i balmentydd a hewlydd ac ar gyffyrdd wedi gordyfu. Golyga hyn bod cerddwyr yn gorfol cerdded ym mhellach allan i'r heol, beicwyr yng nghanol yr heol a gyrwyr methu gweld yn iawn wrth i gloddiau mawr amharu ar olwg y gyrrwr. Gan fod yr adar wedi gorffen nythu, mae torri ond ychydig o'r cloddiau a llwyni yn gwneud cymaint o wahaniaeth i ddiogelwch cerddwyr, beicwyr a gyrwyr.

Golwg wahanol ar 1914

Cawsom ein cyflyru'n ddiweddar i edrych ar 1914 fel blwyddyn y Rhyfel Mawr. Ond pan edrychwn yn fanwl ar ein cymdeithas leol am y cyfnod hwnnw, gwelwn fod holl erchylltra a dioddefaint maes y gad yn bell iawn o feddyliau pawb. Rhywbeth draw ar gyfandir Ewrop oedd yr holl siarad am ryfel, ac yn ôl pob son petai yn digwydd, byddai drosodd cyn y Nadolig. Yma yn y gymdeithas wledig glud, cylchdroi'n hamddenol o gylch arferion a defodau crefydd, ffermio a diwylliant wnâi bywyd bob dydd. Gan mlynedd 'nol, ail adroddwyd yr un calendr o flwyddyn i flwyddyn, ac nid oedd 1914 yn wahanol i unrhyw un arall.

Eisteddfod Dydd Calan oedd yr atynfa gynta' gyda phawb yn tyrru i'r ysgol gan nad oedd yna Neuadd yn bod bryd hynny. O'r adroddwyr Rachel Edwards Llwyngwyn aeth a hi Dan 8, gyda Sarah Thomas Pantyffordd yn fuddugol Dan 10. Cipiodd Bessie Ifans Gwyn Villa yr unawd soprano a chafodd y gynulleidfa gryn hwyl yn gwrando ar Araith ar y Pryd D.B. Ifans Blaenpant. Yn ôl y disgwyl aeth yr Unawd Piano i J.J. Lewis Glanyryns. Gwelwyd yr ysgol yn orlawn unwaith eto ar y 18fed o Ionawr wrth i'r holl ardal dalu teyrnged a dymuno'n dda i'r Prifathro, Griff Morris, yn ymadael am ei swydd newydd ger Llanelli. Prin fyddai neb wedi dychmygu y byddai ef a'i deulu' nol yng nghapel Bethel o fewn dwy flynedd yn galari colli ei fab Emrys yn y Rhyfel. Pan gladdwyd Mrs Howells Pantiouar ym mynwent yr eglwys fis ar ôl hynny, dywedwyd fod yna ddeigrynn yn llygad pawb.

'Roedd Eisteddfod Fawr fis Mai yn achlysur go bwysig gyda thalentau'n cael eu denu o bell. Daeth pedair Pryddest tri chan llinell i law i ennill canmoliaeth y beirniad, a phan aeth y wobr gynta' i Bencader bu dathlu mawr ar y trêv olaf adre. Ym Mehefin, cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa i Mrs Thomas Blaencors yn eglwys Sant Celynin, Bronwydd. Wedyn ym Mis Medi atebodd Gwilym Morris yr alwad I Gapel Ffynnonhenri yn syth o Goleg Bangor. Gwr oedd yn dilyn ôl traed ei dad, sef y Parch Thomas Morris Soar Treherbert. Tro Cynwil oedd hi eleni i gynnal Cymanfa Ganu'r Methodistiaid ym mis Hydref, ac yna daeth cylch y gwasanaethau diolchgarwch i weld holl gynnrych y fro yn addurno'r capeli ac eglwysi.

Ond heb os nac oni bai digwyddiad mwyaf cynhyrfus y flwyddyn oedd y Briodas Fawr, pan dyrrodd yr holl ardal i'w gwyllo ar y 15fed o Fehefin. Yn eglwys y Llan priododd Maggie, ail ferch Tafarn y Railwe yn ei gwisg sidan crepe a het ddu, ag Edward Stanley o Abertawe,. Gwgodd y gwragedd lleol yn eiddigeddus hefyd ar y ddwy forwyn briodas, hefyd yn eu gwisgoedd sidan a'u hetiau crand. Ei brawd John roddodd Maggie i ffwrdd, cymeriad amlwg a hoffus i'r holl ardal. Y Railwe oedd ei gartref ond adnabuwyd ef gan bawb fel John y Glo; y fe, a'i gaseg enwog Polly, fu'n dosbarthu glo drwy'r holl ardal am ddegawdau. Wedi'r gwasanaeth yn ôl a'r gwesteion i'r Railwe am y Brecwast Briodas, lle bu llawer o hwyl a sawl llwncdestun. Gyda chawodydd o reis a dymuniadau da ymadawodd y par hapus am Gaerfyrddin, na nid ar y trêv, ond yn un o'r ceir modur newydd yna. A lawr a nhw heibio i Bantycelyn ac i fyny Rhiw Cwpers. Yna mewn siwt o las twyll a het wen y tro hwn, camodd Maggie, law yn llaw a'i gwr, ar y trêv o Gaerfyrddin am Fryste i fwynhau eu mis mel. Diwrnod bythgoifiadwy, a'r peth pella' o feddwl neb oedd rhyfel!

Village Voice August 2014

Copy Date for next Edition 25th September 2014

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Tuesday Zumba 6.30 – 7.30 Memorial Hall from September

Every Wednesday Mobi 5.30 – 7.30 Memorial Hall

Every Wednesday Steak Night at the Railway 253643

August 9 Saturday 2.00 Walk up to Skanda Vale via Cwmcreigiau Fach from Bodran Felin

August 10 Sunday Field Trip to Margam Church West Wales Dowsers Society

August 13 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

August 19 Tuesday Trip to Abbey Mill, Tintern 60+Club

August 21 Thursday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn

August 23 Saturday 11.00 Cynwyl Elfed Agricultural Show

August 26 Tuesday 1.00 Happy Feet Clinic Memorial Hall

August 28 Thursday 8.00 Annual General Meeting Bowls Club Memorial Hall

August 31 Sunday 4.00 Annual Treasure Hunt from Memorial Hall

August 31 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

September 1 Monday 7.30 Bowls Season starts Memorial Hall

September 7 Sunday 2.00 Walk on Llanllwni Mountain from Talardd Inn

September 10 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

September 14 Sunday Field Trip to Manobier Castle West Wales Dowsers Society

September 17 Wednesday 7.30 Nanette's Fashion Show Memorial Hall

September 18 Thursday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

September 22 Monday 2.00 60+ club Annual General meeting Bronwydd Hall

September 27 Saturday 10.00 Macmillan Coffee Morning Memorial Hall

September 28 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Society Bronwydd Hall

September 28 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

October 4 Saturday Llanpumsaint Church Harvest Festival – Date to be confirmed

October 7 Tuesday 1.00 Happy Feet Clinic Memorial Hall

October 8 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn – to book phone 253643

October 11 Saturday 12.45 Walk Amroth to Pendine (Meet at bus stop in Pendine)

October 18 Saturday Music Extravaganza Memorial Hall

October 23 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

October 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Society Bronwydd Hall

October 26 Sunday Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

November 28 Friday 7.30 Bingo Memorial Hall

*Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall
To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365*

Malcolm Howells - From Coal to Cows!

Very few individuals within the community of Llanpumsaint had any links whatsoever with the mining industry but the late Malcolm Howells, Pandy was truly a coal miner and had the scars to prove it. Malcolm Howells, born in Ponthenry and whose early years were spent in Pontyates, moved to Pandy after marrying Elvira in the July of 1958, and worked the smallholding with the family as well as being a miner in Cynheidre Colliery until his retirement in 1987, having spent 37 years in the mining industry.

Malcolm Howells possessed many skills, having been a farm worker before taking up employment with a construction company, James Rees Builder and it was from the building trade that Malcolm became a collier. Perhaps Malcolm's greatest sporting love was for the beautiful game and his love of sport was not that of today's couch potato, he played in the full back position for three local teams, Meinciau, Porthyrhyd and Llandysul. When Malcolm moved to Llanpumsaint, it was a wholehearted relocation and he soon became known as Malcolm Pandy and immersed himself in community life with great commitment and became a trustee or committee member of various organisations which included the Hall, Welfare, Short Mat Bowls Chairman and was Governor of the village school and Cambria Secondary School. A numerous gathering of family, friends, neighbours and members of many organisations gathered at Narberth Cematorium to pay their last respects to Malcolm and the family had kindly organised light refreshments for mourners at the Roadhouse Restaurant near Whitland after the funeral.

A man of Stature.

Post Office Van Times A reminder that the Post Office Van comes to the village on Tuesday: 2pm - 4pm, and Friday: 1pm - 3pm. It parks in the layby by Bryn yr Wawr (opposite the Railway Inn)

Speeding in our Village

As a resident with children and dogs I regularly walk and cycle around Llanpumsaint and I am very concerned about the number of vehicles that speed through our village. I love living here and as a pedestrian I notice the speeding traffic more as I walk to the shop, school, pub, village hall , allotments and to visit friends. Coopers Hill has a 30mph sign but also an incline which encourages cars, vans and farm vehicles to speed up as they drive through the village. There is one other small 30mph sign by the sewage works and then no other signage to remind people that they should slow down. We also have an issue with speeding past the park and I know some people have suggested speed bumps there to slow traffic down. As cars drive through Llanpumsaint the 30mph speed limit seems to be totally unsuitable in the narrow roads near to the school and I think a 20mph limit would be safer and more pleasant for those villagers living in that area.

I am worried there will be a child run over as they walk/cycle to school and this could be avoided if more care were taken and speeds were reduced to 30mph or less (especially approaching bends).

If you are concerned about the high speed of traffic in our area or witness anyone going through our village at more than the safe statutory speed limit then please contact:

PC Gareth Thomas on – gareth.thomas711@dyfed-powys.pnn.police.uk or 01267222020

John McEvoy - JMcEvoy@carmarthenshire.gov.uk or 01267234567

Unless the Police and Council know we have concerns this problem will continue and someone will be injured as a result. Louise Weldon, Gwynfryn.

CYNWYL ELFED YFC SHOW Bank Holiday Saturday 23 August 2014

To commence at 11.00, in “Shed” Field, Panthwdog, Cynwyl Elfed by kind permission of Mr E Williams, Panthwdog

CLASSESS FOR: Cattle, Sheep, Dogs, Pets, Farm Produce, Garden Produce, Flowers, Floral Art, Cookery, Dairy Produce, Preserves, Handicrafts, Rural Crafts, Wines & Meads, Children’s Section

ALSO NEW FOR THIS YEAR – POULTRY SECTION AND VINTAGE DISPLAY

Show Queen & Attendants to be Judged at 11 am on Show Day, Refreshments available.

Full programmes from Cynwyl Elfed Premier Shop, Llanpumsaint Shop, Derwydd Garage

EVENING ENTERTAINMENT: “CRAZY” FOOTBALL, SLAVE AUCTION, MR & MRS, PIG ROAST AND BBQ

